

Canllawiau

Pa adrannau o'r ffurflen gais dylwn i eu cwblhau?

Adran 1

Amdanoch chi

RHAID i bob ymgeisydd sy'n cyflwyno cais am Fathodyn Glas gwblhau'r adran hon. Mae'r meysydd gorfodol i'w gweld gyda seren (*) wrth eu hochr.

Tystiolaeth o bwy ydych chi a'ch cyfeiriad

Anfonwch un o'r canlynol gyda'ch ffurflen gais: (**caiff copiâu ardystiedig eu derbyn*):

- Tystysgrif geni/mabwysiadu
- Tystysgrif priodas/ysgariad
- Tystysgrif partneriaeth sifil / diddymu
- Trwydded yrru ddilys
- Pasbort dilys
- Tocyn Mantais Teithio

Mae modd ichi fynd â dogfen wreiddiol i un o Ganolfannau IBobUn y Cyngor (rhaid trefnu apwyntiad ymlaen llaw) a bydd aelod o staff yn gwneud llungopi o'r ddogfen i gyd-fynd â'ch ffurflen gais. Fel arall, mae modd i chi fynd â llungopi ardystiedig gyda chi i'r apwyntiad*.

*Rhaid i'r dystiolaeth fod yn llungopi o ddogfen sydd wedi'i chadarnhau / ei hardystio i fod yn ddogfen 'wir'. Rhaid iddi gael ei chadarnhau gan rywun (sydd ddim yn bartner neu'n aelod o'ch teulu) sydd wedi eich adnabod chi ers o leiaf ddwy flynedd ac sy'n 18 oed neu'n hŷn.

Dylai'r unigolyn sy'n ardystio'r dogfennau gynnwys y testun isod: "Mae'r copi hwn yn cynrychioli'r gwreiddiol yn gywir" ynghyd â llofnod y person. Dylai'r unigolyn hefyd nodi'i enw mewn print, ei fanylion cyswllt â'i swydd. Efallai bydd yr awdurdod lleol yn cysylltu â chi er mwyn gwirio pwy ydych chi.

Llun

Bydd modd i ni dynnu'ch llun yn ystod eich apwyntiad yn un o'n Canolfannau IBobUn. Rhaid bod y wyneb a'r cefndir yn dangos yn eglur. Nodweddion hanfodol eraill:

- lliw;
- 45 milimetr o uchder, 35 milimetr o led (maint pasbort);
- wedi'i gymryd **o fewn y 6 mis** cyn cyflwyno'r cais;
- yn erbyn cefndir golau (llwyd golau neu hufen);
- heb ei ddifrodi;
- heb 'lygaid coch', cysgodion tywyll/golau neu adlewyrchiad sbectol;
- yn cynnwys pen ac wyneb llawn y person (heb fod person arall i'w weld yn y llun a heb unrhyw orchudd, oni bai bod y person yn ei gwisgo am resymau crefyddol neu feddygol);
- wynebu'r blaen;
- dim byd yn gorchuddio'r wyneb;
- edrych yn unionsyth at y camera;
- dim mynegiant ar y wyneb, gyda'r geg ar gau;
- llygaid ar agor ac i'w gweld yn glir (heb sbectol haul neu sbectol dywyll, a heb wallt neu fframiau sbectol yn cuddio'r llygaid);
- ffocws amlwg a chlir;
- wedi'i brintio gan gwmni proffesiynol;

- Os nad ydych chi'n bresennol pan gaiff y cais ei gyflwyno, rhaid i'r llun gael ei wirio gan y sawl sy'n cyflwyno'r cais.

Cyfeiriad

Anfonwch un o'r canlynol gyda'ch ffurflen gais: (**caiff copiâu ardystiedig eu derbyn*):

- Bil Treth y Cyngor, sy'n dangos eich enw a'ch cyfeiriad (wedi'i ddyddio yn ystod y 12 mis diwethaf)
- Llythyr cadarnhau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, Gwasanaethau Cymdeithasol, Budd-dal Tai (wedi'i ddyddio yn ystod 12 mis diwethaf)
- Trwydded yrru ddilys
- Fel arall, mae modd i chi roi caniatâd i'r Awdurdod Lleol wirio'ch cofnodion Treth y Cyngor, Cofrestr Etholiadol neu Gofnodion Ysgol (fydd ddim angen tystiolaeth bellach)

Pris Bathodyn Glas

Does dim cost ar gyfer Bathodyn Glas, fodd bynnag, mae'n bosib y bydd rhaid talu hyd at £10 am Fathodyn newydd os ydych chi'n ei gollu, os yw bathodyn yn cael ei ddwyn neu os yw'n cael ei ddifrodi fel nad oes modd ei ddarllen i wirio'i ddefnydd.

Adran 2 (A-F)

Ymgeiswyr sy'n Cymhwyso'n Awtomatig

Mae ymgeiswyr yn gymwys i dderbyn bathodyn os ydyn nhw dros 2 oed, yn gallu bodloni gwiriadau preswyl ac adnabod, ac yn bodloni o leiaf 1 o'r meini prawf cymhwysedd yn Adrannau 2A-2F.

Bydd angen i chi gyflwyno dogfennau perthnasol i brofi eich bod chi'n gymwys yn unol â'r meini prawf pan rydych chi'n cyflwyno'ch cais yn un o'n Canolfannau lBobUn. **Gwiriwch y cais i weld pa dystiolaeth sy'n dderbyniol.**

Os ydych chi wedi colli'r dystiolaeth yma, gofynnwch am gopi arall gan y sefydliad perthnasol er mwyn i chi'i gyflwyno yn ystod yr apwyntiad. Dyma restr o rifau ffôn defnyddiol:

Lwfans Byw i'r Anabl (DLA): 0345 712 3456

Taliad Annibyniaeth Personol: 0800 917 2222

Asiantaeth y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr: 0808 1914 218

Adran 3 (A-E)

3A: Meini Prawf Dewisol, Cwestiynau ar gyfer ymgeiswyr sydd ag anawsterau cerdded.

Mae'n bwysig eich bod chi'n cwblhau pob rhan o'r adran hon. Os ydych chi'n meddwl bod cwestiwn yn amherthnasol, nodwch pam. Efallai bydd y ffurflen yn cael ei dychwelyd atoch chi a bydd yna oedi o ran dosbarthu'r Bathodyn Glas os nad ydych chi'n ateb bob cwestiwn. Mae hyn yn arbennig o bwysig os ydych chi'n berson sydd â Bathodyn Glas ar hyn o bryd ac sy'n gwneud cais am un newydd.

Nam parhaol yw nam sydd yn debygol o bara am weddill eich oes. Dydy cyflyrau meddygol megis asthma, afiechyd Crohn / cyflyrau anymataliaeth a Mualgic Encephalomyelitis (M.E) ddim yn feini prawf cymhwyster. Efallai y bydd y sawl â'r cyflyrau yma'n gymwys i gael bathodyn glas o dan y meini prawf yma, ond dim ond os oes ganddyn nhw anawsterau cerdded.

Mae cael anawsterau cerdded yn golygu nad ydych chi'n gallu cerdded yn bell heb broblemau, megis;

- Poen ormodol; diffyg anadl; cyflymder cerdded; defnyddio cymhorthion cerdded; cymryd meddyginiaeth; y gallu i gerdded yn yr awyr agored

Mae'n bwysig eich bod chi'n darparu digon o dystiolaeth gyfredol i gefnogi'ch cais (o fewn y 12 mis diwethaf).

3B: Meini Prawf Dewisol, Cwestiynau ar gyfer ymgeiswyr sydd â nam yn y ddwy fraich.

Bydd angen i chi ddangos eich bod chi'n yrrwr sydd â nam yn y ddwy fraich a'ch bod chi ddim yn gallu gweithredu, neu fod gyda chi anhawster wrth weithredu, pob math neu rai mathau o gyfarpar parcio ar y strydoedd.

Rydyn ni'n gofyn am rif trwydded yrru at ddibenion gorfodi. Byddwch chi ond yn gymwys i dderbyn y bathodyn os mai chi sy'n gyrru'r cerbyd.

3C: Meini Prawf Dewisol, Cwestiynau ar gyfer ymgeiswyr sy'n iau na thair oed.

Rhaid i riant neu warcheidwad wneud cais ar ran y plentyn sy'n iau na thair oed. Mae'r rhestr o gyfarpar meddygol swmpus yn cynnwys:

- peiriant anadlu; peiriant sugno; cymhorthion bwyta; cyfarpar i rieni; gyrrwyr chwistrell; cyfarpar rhoi ocsigen; cyfarpar monitro dirlawnder ocsigen parhaus; a chastiau a chyfarpar meddygol perthnasol er mwyn gwella dysplasia ar y glun.

Mae esiamplau o gyflyrau meddygol ansefydlog iawn sy'n golygu bod plant sydd â'r cyflyrau yma angen mynediad cyflym at gludiant i'r ysbyty neu'r cartref yn cynnwys:

- Tracheotomy; epilepsi/ffitio; diabetes ansefydlog iawn; ac afiechydon terfynol sy'n atal plant rhag treulio cyfnodau byr y tu allan i'r tŷ ac sydd angen llwybr cyflym gartref.

Nodwch fod y rhestrau uchod ddim yn gynhwysfawr, er mwyn i ni ychwanegu datblygiadau technoleg a thriniaeth newydd.

Rhaid i'r rhiant/gwarcheidwad amgáu llythyr gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol sydd wedi bod yn gysylltiedig â thriniaeth y plentyn (er enghraifft, paediatregydd) gan roi manylion cyflwr meddygol y plentyn a'r math o gyfarpar meddygol sydd ei angen arno, neu roi manylion cyswllt y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol. Rhaid i'r llythyr ddangos tystiolaeth o gyfeiriad cartref y plentyn ar gyfer yr awdurdod lleol.

3D: Meini Prawf Dewisol, Cwestiynau ar gyfer ymgeiswyr sydd â nam gwybyddol.

Mae'r meini prawf yma'n berthnasol i bobl sydd ag anawsterau o ran cynllunio a dilyn taith, i'r graddau bod angen goruchwyliaeth barhaus arnyn nhw. Efallai y bydd hyn yn cynnwys pobl sydd ag:

- Awtistiaeth, Alzheimer's neu Dementia, pobl sydd wedi goroesi strôc, pobl sydd ag Anableddau Dysgu, Iechyd Meddwl ac anafiadau i'r pen.

3E: Meini Prawf Dewisol, Cwestiynau ar gyfer ymgeiswyr sydd â nam symudedd dros dro.

Nam symudedd sylweddol dros dro yw cyflwr y mae disgwyl iddo bara o leiaf 12 mis. Dylai'r ymgeisydd ofyn am dystiolaeth o'r cyflwr gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol (nid meddyg teulu), sy'n nodi'r cyfnod gwella disgwyliedig.

Adran 4

Datganiadau a llofnodion

- Adran 4A): Rhaid i'r holl ddatganiadau gorfodol gael eu cwblhau gan bob ymgeisydd, gan eu bod nhw wrth wraidd i'r amodau ar gyfer gwneud cais am Fathodyn Glas. Treuliwch amser yn darllen a deall y datganiadau yma. Mae'n bosib, os fyddwch chi ddim yn ticio'r hyn sy'n berthnasol i'ch cais, bydd yr Awdurdod Lleol yn gwrthod eich cais am Fathodyn Glas.
- Adran 4B): Rhaid i bob ymgeisydd lofnodi a nodi'r dyddiad ar y ffurflen cyn ei chyflwyno.
- Adran 4C): Rhestr wirio dogfennau. Mae'n bwysig eich bod chi'n cyflwyno'r holl ddogfennau/gwybodaeth berthnasol.
- Adran 4D): Efallai byddwch chi eisiau ticio'r datganiadau dewisol er mwyn cyflymu proses eich cais a gwella'r gwasanaeth rydych chi'n ei dderbyn gan yr awdurdod lleol. Wrth wneud hyn, byddwch chi'n rhoi caniatâd penodol i'r awdurdod sy'n ei alluogi i rannu'ch gwybodaeth gyda'r adrannau a darparwyd y gwasanaethau perthnasol o fewn yr awdurdod.

Efallai y bydd yr Awdurdod Lleol yn gwrthod rhoi bathodyn os oes ganddo reswm i gredu bod yr ymgeisydd yn honni ei fod yn berson gwahanol, neu y bydd y bathodyn yn cael ei ddefnyddio gan berson gwahanol i'r hwnnw sydd wedi derbyn y bathodyn.

Os yw eich cais am fathodyn yn llwyddiannus, bydd pamffled "Cynllun y Bathodyn Glas – Hawliau a Chyfrifoldebau yng Nghymru" yn cael ei anfon atoch chi drwy'r post gyda'r bathodyn. Mae'r pamffled yma'n esbonio rheolau'r Cynllun a sut i ddefnyddio'r bathodyn mewn ffordd addas. Mae'n bwysig iawn eich bod chi'n darllen y pamffled yma ar ôl derbyn eich Bathodyn Glas newydd, hyd yn oed os ydych chi wedi cael Bathodyn Glas yn y gorffennol. Efallai y bydd yna reolau newydd ar sut i ddefnyddio'r bathodyn. Os nad ydych chi'n cydymffurfio â'r hawliau a chyfrifoldebau, efallai bydd:-

- y bathodyn yn cael ei dynnu'n ôl
- hysbysiad cosb benodol yn cael ei roi oherwydd trosedd parcio
- deiliad y bathodyn yn cael ei erlyn oherwydd nifer o droseddau ble mae'r hawliau a chyfrifoldebau wedi cael eu defnyddio mewn modd anghywir neu drwy dwyll.

Gwybodaeth Arall

Caiff Bathodynnau Glas eu rhoi am gyfnod o dair blynedd a bydd rhaid i chi ddychwelyd eich bathodyn os yw eich cyflwr yn gwella ac os nad ydych chi angen y bathodyn bellach. Ar ôl y tair blynedd yma, bydd rhaid i chi wneud cais arall am fathodyn os ydych chi am barhau i'w ddefnyddio.

Os nad ydych chi angen Bathodyn Glas oherwydd profedigaeth, rhowch wybod i ni drwy ddefnyddio'r gwasanaeth 'Dywedwch Unwaith yn Unig' sy'n cael ei ddarparu gan yr Awdurdod Lleol. Byddwn ni'n anfon nodyn atgoffa i chi ddychwelyd y bathodyn.